CADWYN Clwyd

Asiantaeth Datblygu Gwledig
Rural Development Agency

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Grwp Gweithredu Lleol Sir y Fflint

## Cylchlythyr Yr Haf 2019

### Ffocws ar LEADER

Mae Grŵp Gweithredu Lleol (GGLl) Sir y Fflint wedi cymeradwyo cymorth LEADER o fwy na £750,000 mewn prosiectau sydd wedi'u harwain gan y gymuned yn yr ardal wledig. Dywedodd Sue Haygarth, Cadeirydd y GGLl, "Rydym wedi cymeradwyo amrediad o brosiectau gwahanol ers 2016, yn amrywio o dwristiaeth, mynediad at wasanaethau, ynni a rhwydweithiau busnes ac mae'n braf gweld y prosiectau hyn yn cael eu darparu ar lawr gwlad". Mae'r prosiectau sydd wedi'u cymeradwyo gan Grŵp Gweithredu Lleol Sir y Fflint yn cael eu hariannu drwy'r rhaglen LEADER sy'n cael ei rheoli gan Cadwyn Clwyd. "Mae arian yn parhau i fod ar gael i gefnogi prosiectau cymunedol newydd ac arloesol ar draws Sir y Fflint wledig, a byddwn yn annog grwpiau cymunedol sydd â syniadau a chynigion i gysylltu â Cadwyn Clwyd i gael help i ddatblygu'r syniadau hyn yn brosiectau gwirioneddol" ychwanegodd Sue. Mae gan y GGLl ychydig o dan £500,000 ar gael o hyd i gefnogi mentrau cymunedol yn Sir y Fflint wledig.





"Ymhlith y prosiectau sydd wedi'u cefnogi hyd yma mae mentrau twristiaeth fel defnyddio hen giosgau ffôn fel mannau gwybodaeth i dwristiaeth, datblygu apiau digidol ar draws lleoliadau twristiaeth allweddol yn y sir a chefnogi mentrau Awyr Dywyll Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy. Mae prosiectau eraill wedi darparu cymorth i rwydweithiau busnes gan gynnwys fforwm Bwyd a Diod Gogledd-ddwyrain Cymru a rhwydweithiau busnes Yr Wyddgrug, a darparwyd cymorth hefyd i gyfleusterau cymunedol fel datblygu neuadd bentref Trelogan ac archwilio'r posibilrwydd o wneud defnydd cymunedol o Gapel Bethesda yn Yr Wyddgrug", dywedodd Sue.

**A wyddoch?**

**Mae yna ychydig o dan £500,000 ar gael yn awr ar gyfer prosiectau yn Sir y Fflint wledig. Os oes gennych syniad ar gyfer prosiect y gallai eich cymuned elwa arno, cysylltwch â Cadwyn Clwyd ar 01490 340500 neu admin@cadwynclwyd.co.uk**

# Aros, Bwyta, Gwneud…

Mae menter dwristiaeth newydd sbon gyda'r nod o hybu economi cefn gwlad drwy annog ymwelwyr i ymweld ag un o ranbarthau mwyaf prydferth Cymru a manteisio i'r eithaf ar eu harhosiad yma wedi'i lansio yng Ngogledd-ddwyrain Cymru.

Diben Aros, Bwyta, Gwneud yw darparu pecynnau sy'n cyfuno llety, bwyd a gweithgareddau ar draws Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, yr AHNE mwyaf yng Nghymru.

Cafodd y fenter ei chreu gan Grŵp Twristiaeth Bryniau Clwyd yn dilyn astudiaeth ddichonoldeb a gefnogwyd gan y Grŵp Gweithredu Lleol yn Sir y Fflint a Cadwyn Clwyd. Dywedodd y Cydlynydd Prosiect, Julie Masters, sydd newydd ei phenodi: "Ein nod yw annog pobl i ddod yma, aros yn hirach a mwynhau mwy o'r hyn rydym yn ei gynnig yn y rhanbarth.

"Mae ymwelwyr yn dueddol o ddod am ddiwrnod neu benwythnos o bosibl ond os gallwn greu amserlenni pwrpasol ar eu cyfer sy'n cynnwys lleoedd i aros, lleoedd i fwyta a phethau i'w gwneud, yna efallai y gallwn ymestyn eu harhosiad i benwythnos hir neu hyd yn oed wythnos.

"Rydym wedi dechrau creu'r pecynnau hyn fel rhan o raglen tair blynedd ac rydym yn awyddus i glywed gan gymaint o ddarparwyr twristiaeth ag y gallwn er mwyn creu profiadau cofiadwy, diddorol a chyffrous i ymwelwyr, sy'n cyfuno pob un o'r tair elfen.

Bydd Aros, Bwyta Gwneud ar waith hyd at haf 2021 am gost o £71,000 gyda chyllid gan Cadwyn Clwyd ac AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a chefnogaeth gan Gynghorau Sir y Fflint, Sir Ddinbych a Wrecsam, sy'n gweithio gyda'r prosiect hefyd.

Dau ddarparwr twristiaeth sydd eisoes yn cyfuno eu cynnig yw Richard Haggerty, sy'n llogi beiciau trydan ac yn cynnig llety yn Ffermdy Glan Llyn, y gwesty bach y mae ef a'i bartner Paola yn ei redeg ym Maeshafn, ger Llanferres, a Carl Percival, o Revolution Cycles yn Yr Wyddgrug.

Dywedodd Richard, sy'n hanu'n wreiddiol o Glasgow - daw ei barther, Paola, o Bologna yn yr Eidal - "Rwy'n credu bod y Prosiect yn syniad gwych, bydd yn helpu i greu rhwydweithiau busnes a datblygu cynigion gwell i ddenu ymwelwyr i ddod i'r ardal ac aros yn hirach. "Mae gan yr ardal gymaint i'w gynnig, gyda golygfeydd godidog, lleoedd gwych i aros, bwyd lleol arbennig a chymaint o bethau i'w gwneud.

Mae Carl, a adeiladodd rai o'r beiciau y mae Richard yn eu llogi hefyd yn awyddus i ddod yn ddarparwr gweithgarwch, yn trefnu teithiau beicio rheolaidd bob penwythnos o amgylch Yr Wyddgrug.

Mae Julie Masters eisiau clywed yn awr gan fusnesau twristiaeth sy'n awyddus i gymryd rhan yn y prosiect, ac ychwanegodd: "Mae pobl wedi trafod sefydlu amserlenni er mwyn cyfuno'r elfennau llety, bwyd a phethau i'w gwneud ond nid yw unrhyw un wedi'i wneud o'r blaen a bwriad Aros, Bwyta Gwneud yw cyfuno pob un o'r rhain.

"Mae gennym lefydd gwych i aros ar gyfer gwahanol gyllidebau a rhai cynigion bwyd rhagorol, gallwn greu amserlenni i fynd ar lwyfan ar-lein y gall darpar ymwelwyr ddewis ohonynt."

Gall unrhyw fusnes sydd â diddordeb gysylltu â Chydlynydd Aros, Bwyta, Gwneud, Julie Masters ar julie.stayeatdo@gmail.com. Mae gwybodaeth bellach a ffurflen mynegi diddordeb ar gael yn www.crtgmembers.co.uk



# O Gysyniad i'r Defnyddiwr…..

Selsig bara lawr, cacennau cri caws a bisgedi ag alcohol ynddynt – tri math o ddanteithion lleol blasus gydag elfen arbennig, a allai fod yn cael eu cynhyrchu yn fuan yng Ngogledd-ddwyrain Cymru.



Mae'r danteithion lleol wedi'u creu gan y tîm yn y Ganolfan Technoleg Bwyd yn Llangefni, ar gyfer Grŵp Gweithredu Lleol Sir y Fflint, mewn partneriaeth â GGLl Sir Ddinbych a Wrecsam. Nod y prosiect O Gysyniad i'r Defnyddiwr yw datblygu bwydlen o gynnyrch rhanbarthol newydd blasus.

Cig oen a bara lawr a chacennau cri caws a chennin a bisgedi wedi'u gwneud o'r grawn dros ben o'r microfragdai niferus sy'n gweithredu yn awr yn yr ardal yw'r ryseitiau cyntaf i'w datblygu.

Gofynnodd Cadwyn Clwyd i arbenigwyr y Ganolfan yn Grŵp Llandrillo Menai, Llangefni lunio naw cynnyrch newydd y gallai cynhyrchwyr crefftus ar draws Sir y Fflint, Sir Ddinbych a Wrecsam wledig eu cynhyrchu.

Dywedodd Donna Hughes, Swyddog Partneriaeth Busnes Cadwyn Clwyd: "Roeddem yn awyddus i ganfod cynnyrch y gallai microfusnesau neu fusnesau newydd ymgymryd â hwy.

"Un o'r themâu pwysig yw edrych ar dueddiadau cyfredol o ran bwyd a sut y gallwn gyflwyno cynnyrch newydd mewn ffordd gynaliadwy a blasus – rydym hefyd yn awyddus i fanteisio ar y farchnad 'flexitarian' lle mae pobl yn parhau i fod eisiau bwyta cig ond eu bod eisiau bwyta llai ohono."




Dywedodd Ann-Marie Flinn, Rheolwr Technegol yn y Ganolfan Technoleg Bwyd: "Y cynnyrch hwn yw cam cyntaf prosiect dwy flynedd, lle gwnaethom ystyried tueddiadau yn y farchnad gyfan.

"Rydym yn cyflwyno'r cynnyrch hyn o restr fer o naw cynnyrch. Mae'n gyfle gwych i gynhyrchwyr yn yr ardal elwa ar y datblygiad uniongyrchol.

"Mae'n bosibl addasu'r ryseitiau, a bydd y tîm yn y Ganolfan yn gweithio gyda'r cynhyrchwyr dethol i'w helpu i farchnata drwy Brosiect Helix Llywodraeth Cymru sy'n cael ei ariannu gan yr UE.




"Fe wnaethom edrych ar gynnyrch o'r ardal ac a oedd yn arloesol, ac yn achos y selsig rydym wedi ystyried defnyddio cig oen mewn cyfuniad â mathau o broteinau gwyrdd, gan gynnwys sbigoglys, bresych deiliog a ffa edamame.

"Mae'r cacenni cri yn amrywiad sawrus o'r hen ffefryn ac mae caws a chennin yn gyfuniad gwych. Mae'r diwydiant microfragdai wedi datblygu'n aruthrol ac mae gwneud bisgedi o'r grawn a fyddai fel arall wedi'i roi'n fwyd i foch yn syniad blasus a chynaliadwy."

Dywedodd Donna: "Mae angen i'r cynnyrch fod yn rhywbeth sy'n mynd i fod yn gynaliadwy i fusnes, ac nid dim ond yn flas y mis.

"Rwy'n hoffi'r syniadau sydd wedi'u cynnig yn Llangefni ac rwy'n credu eu bod yn gynnyrch sydd ar gael yn lleol yng Ngogledd-ddwyrain Cymru y gellir eu creu a'u marchnata yma fel gwir flas y rhanbarth."

# Neuadd Bentref Trelogan



Bydd pentrefwyr yn Sir Ddinbych yn gweld eu canolfan gymunedol sy'n dirywio yn derbyn £160,000 yr haf hwn, diolch i bartneriaeth rhwng eu AS lleol, Cadwyn Clwyd, Cyngor Sir y Fflint a GGLl Sir y Fflint,.

Mae'r gwaith wedi dechrau ar brosiect adnewyddu mawr yn yr adeilad 40 mlynedd oed yn Nhrelogan, ger Treffynnon, ar ôl i Cadwyn Clwyd ymateb i apêl gan AS Delyn David Hanson.

Mae wedi cynnal cyngorfeydd rheolaidd yn yr adeilad, ond mae'r ganolfan wedi gweld dyddiau gwell ers ei hoes aur yn y 1980au pan oedd grwpiau a sefydliadau yn gwneud defnydd ohoni bob noson o'r wythnos fwy neu lai.

Dywedodd Mr Hanson: "Rwyf wedi bod yn cyfeirio pobl leol at Cadwyn Clwyd, sydd wedi gallu eu helpu i gymryd cyfrifoldeb am yr adeilad oddi ar Gyngor Sir y Fflint ac yna i gael arian gan Raglen Datblygu Gwledig - Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru 2014-2020, sy'n cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd i adnewyddu'r neuadd.

"Mae wedi newid o fod yn sefyllfa o reoli'r dirywiad i reoli gwelliannau er mwyn sicrhau y bydd gan Drelogan ganolfan gymunedol sy'n addas i'r diben, erbyn diwedd y flwyddyn.

Dywedodd Helen Williams, Swyddog Prosiect yn Cadwyn Clwyd: "Roeddem yn falch iawn i allu helpu pan gysylltodd David Hanson a chynhaliwyd astudiaeth wedi'i ariannu drwy gyllid LEADER yr UE i ganfod beth oedd ei angen a beth oedd y bobl leol yn dymuno ei gael.

"Fe alluogodd hyn i'r bobl leol gymryd cyfrifoldeb am yr adeilad gan Gyngor Sir y Fflint a chael mynediad at arian a fydd yn galluogi i'r gwaith adnewyddu gael ei wneud.

"Mae'n enghraifft dda iawn o wahanol asiantaethau yn cydweithio, drwy gymhelliant yr AS, a fydd yn galluogi y bydd gan Drelogan ganolfan y gallant ymfalchïo ynddi yn fuan.

"Mae'r prosiect hwn yn dangos sut y gall buddsoddiad ar raddfa fach drwy arian LEADER arwain at rywbeth arwyddocaol iawn i'r gymuned leol."



# Apiau Digidol



Mae rhwydwaith o Lwybrau Digidol y gellir eu defnyddio drwy ffonau symudol a chyfrifiaduron llechen ar draws ardaloedd gwledig Sir y Fflint er mwyn hyrwyddo'r ardal ar sail beilot drwy apiau digidol.

Mae yna 6 Llwybr Digidol ar hyn o bryd, y gellir cael mynediad atynt drwy un ap ffonau symudol/llechen sy'n cael ei ysgogi pan fydd y ffôn/llechen o fewn yr ystod, gan ddarparu gwybodaeth, darluniau, sain a hyd yn oed fideo.

Mae'r prosiect yn un cydweithredol gyda GGLl Sir Ddinbych a Wrecsam ac mae rhwydwaith ap Llwybrau Digidol Gogledd-ddwyrain Cymru yn cael ei sefydlu am gost o £45,000 drwy bob GGLl.  Mae'r ap hwn ar gael i'w lawrlwytho am ddim yn awr drwy'r Appstore a Googleplay,

Mae apiau Sir y Fflint yn cynnwys Y Parlwr Du, Treffynnon, Brynffordd, Yr Wyddgrug, Coed-llai ac Ysgeifiog – gyda rhai ychwanegol ar gyfer Talacre a Nannerch yn cael eu cyflwyno cyn hir.

Datblygwyd yr ap ar gyfer ffonau symudol a llechen gan yr arbenigwyr ap rhyngwladol o Fangor, Locly, y bu Rhys Jones yn gweithio ar y prosiect a dywedodd: "Mae'r prosiect hwn yn un unigryw am ei fod yn dod â chymaint o gymunedau at ei gilydd.

"Nid oes unrhyw beth fel hyn unrhyw le arall yn y byd sydd â chymunedau gwahanol yn gweithio ar eu prosiectau lleol eu hunain i greu rhywbeth sy'n cwmpasu ardal fel hon."



Mae cwmni Rhys newydd greu Llwybr Aur yn Perth, Gorllewin Awstralia a dywedodd: "Mae wedi bod yn waith cyffrous iawn.  Cefais fy magu yn Nyserth ac rwyf wedi bod yn dysgu pethau am yr ardal nad oeddwn yn eu gwybod o'r blaen."

Mae Jo Danson, o Nannerch, yn un o dri arbenigwr treftadaeth sy'n gweithio ar y rhaglen, ynghyd â Lorna Jenner a Bill Smuts, a dywedodd:" Mae wedi bod yn brosiect dwy flynedd ac mae wedi bod yn gyffrous iawn.

"Pe byddai rhywun wedi dweud wrthyf ddeng mlynedd yn ôl y gallech gael cymaint o fynediad at wybodaeth i'ch ffôn symudol ni fyddwn wedi'u credu.

"Mae'r cymunedau sydd wedi bod yn cymryd rhan yn haeddu diolch arbennig - hyd yma mae gennym 11 sy'n fyw neu yn cael eu datblygiad, ac mae cyfle i ychwanegu llawer mwy ac ehangu ac ymgorffori gwybodaeth a thechnolegau newydd wrth i'r prosiect dyfu.

"Mae'n un o'r llwybrau treftadaeth mwyaf uchelgeisiol yn y DU a chredwn y bydd yn annog pobl i ddod yma a threulio amser yn archwilio, oherwydd mae'n ffordd wych o ddweud wrthynt beth sydd mor arbennig am Sir y Fflint a Gogledd-ddwyrain Cymru."

Mae'r cynllun wedi'i oruchwylio gan Swyddog Cyfoeth Naturiol Cadwyn Clwyd, Sarah Jones, a ddywedodd:" Mae gan ardal Gogledd-ddwyrain Cymru stori wych i'w hadrodd ac mae'r ffordd y mae cymunedau wedi dod ymlaen i adrodd y storïau hyn wedi bod yn wych.

"Y peth anhygoel am y cynllun yw ei fod mor hyblyg, oherwydd mae cyfleoedd di-ben-draw i'w ehangu a'i ddatblygu dros y blynyddoedd.

"Mae hefyd yn hawdd ei ddefnyddio oherwydd hyd yn oed os na allwch gael wifi gallwch barhau i gysylltu i'r rhwydwaith, drwy Bluetooth a chael mynediad i'r holl wybodaeth.

"Bydd gwybodaeth am yr ap a sut i'w lawrlwytho ar gael hefyd mewn siopau, tafarndai, llety gwely a brecwast a gwestai lleol er mwyn i ymwelwyr gael mynediad yn rhwydd iddo ac rydym yn gobeithio y bydd pobl leol yn ei ddefnyddio hefyd er mwyn dysgu mwy am eu hardal fendigedig."

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig:
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig

European Agricultural Fund for Rural Development:
Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CADWYN Clwyd

*Asiantaeth Datblygu Gwledig*
*Rural Development Agency*


**Cadwyn Clwyd, Llys Owain, Stryd y Bont, Corwen LL21 0AH**

**Ffon / Tel:** 01490 340 500

**Gwefan / Web:** www.cadwynclwyd.co.uk

**Facebook:** https://www.facebook.com/cadwynclwyd

**Twitter:** https://twitter.com/CadwynClwyd


